# Ymgynghoriad Medr ar system reoleiddio newydd gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid

## Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd

**Cwestiwn:** Ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr cymesur a seiliedig ar risg i gyflawni'r nodau yn ein Cynllun Strategol. Mewn perthynas â'n Dull Rheoleiddio arfaethedig, i ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio'n ategu ein gallu i gyrraedd nodau ein Cynllun Strategol?

Cytuno'n Gryf

Rydym yn croesawu dull Medr o reoleiddio sy'n seiliedig ar egwyddorion clir ac uchelgeisiol. Mae'r dull yn cynnig sylfaen gadarn i gefnogi cyflawni nodau strategol, gan gynnwys y blaenoriaeth strategol o ran y Gymraeg.

Mae'r pwyslais ar ddeilliannau a chydweithio yn cyd-fynd â dull Comisiynydd y Gymraeg o reoleiddio, lle rydym wedi symud tuag at fodel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr ac arloesi cyfrifol. O fewn y dull hwn, rydym yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng cymell a gorfodi cydymffurfiaeth, gan gydnabod gwerth dulliau cadarnhaol i hyrwyddo newid cynaliadwy ochr yn ochr â'r angen am weithredu cadarn lle bo hynny'n briodol.

O ystyried bod hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o nodau strategol Medr, rydym yn croesawu'n fawr y bwriad i gynnwys amod rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg. Bydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog o fewn y fframwaith rheoleiddio ac yn galluogi Medr i gyflawni eu amcan strategol o safbwynt y Gymraeg.

Rydym yn deall y bydd yr amod rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddatblygu maes o law, ac y bydd ymgynghoriad pellach ar hyn. Yn hynny o beth, rydym yn annog Medr i sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, gan greu cysylltiad strategol rhwng y system reoleiddio a nodau polisi iaith cenedlaethol. Rydym yn awyddus deall mwy ynghylch sut y bydd yr amodau hyn yn cydblethu â'r cynllun cenedlaethol, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau pellach a gyhoeddir i gefnogi darparwyr wrth weithredu'r gofynion hyn.

Rydym yn croesawu'n gryf y bwriad a nodir yn y ddogfen ymgynghori i fynd y tu hwnt i orfodi gofynion rheoleiddiol yn unig, drwy feithrin cydweithio agos â darparwyr addysg a rhanddeiliaid i gyflawni deilliannau a rennir, a datblygu amgylchedd lle mae darparwyr yn cael eu hannog i ddysgu, tyfu ac arloesi. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'n hymagwedd ni fel Comisiynydd y Gymraeg at reoleiddio – sef hyrwyddo cydymffurfiaeth drwy gefnogaeth, dealltwriaeth a chydweithio, yn ogystal ag ymyrraeth lle bo angen.

Rydym hefyd yn croesawu'r pwyslais ar feithrin ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith darparwyr o'u cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Credwn fod y dull hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn strategol, ac yn rhan annatod o gynllunio a darparu addysg drydyddol yng Nghymru.

Yn ein barn ni, mae'r ymagwedd hon yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau cynnydd cynaliadwy yn y defnydd o'r Gymraeg yn y sector, ac rydym yn annog Medr i barhau i ddatblygu'r dull hwn wrth lunio'r fframwaith rheoleiddio terfynol.

O ran y nodau strategol a nodir ar dudalen 8, ein barn ni yw y byddai'r amcan sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn fwy cadarn pe bai'n cyfeirio'n benodol at "fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd, ac at fwy o anogaeth a chefnogaeth i gyfranogi yn y ddarpariaeth Gymraeg". Yn ogystal, credwn y dylai'r amcan gynnwys cyfeiriad penodol at greu galw am addysg cyfrwng Cymraeg, gan adlewyrchu'r angen i ysgogi diddordeb a chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr a darpar ddysgwyr. Byddai geiriad o'r fath yn adlewyrchu'n well uchelgais strategol ar gyfer y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol, ac yn rhoi sylfaen gliriach i'r gwaith o fonitro cynnydd yn y maes hwn.

**Cwestiwn:** I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio'n ategu ein bwriad i fod yn rheoleiddiwr cymesur a seiliedig-ar-risg?

Cytuno'n Gryf
Mae dull cymesur a seiliedig ar risg yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol. Rydym yn croesawu'r dull hwn, sy'n adlewyrchu ein hymagwedd ni hefyd – lle rydym yn blaenoriaethu meysydd sydd â'r effaith fwyaf ar ddefnyddwyr y Gymraeg, ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda sefydliadau i fynd i'r afael â risgiau cyn iddynt arwain at dorri safonau.

**Cwestiwn:** I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r athroniaeth, yr egwyddorion a'r disgwyliadau a nodir yn ein Dull Rheoleiddio?

Cytuno'n Gryf
Rydym yn cefnogi'r egwyddorion craidd o gydweithio, dysgu, a chynnydd parhaus. Mae'r pwyslais ar greu amgylchedd lle mae darparwyr yn cael eu hannog i ddysgu a thyfu yn adlewyrchu ein dull cyd-reoleiddiol, lle rydym yn gweithio gyda sefydliadau i gyflawni deilliannau a rennir, nid yn unig i orfodi cydymffurfiaeth.

**Cwestiwn:** A allai'r Dull Rheoleiddio, fel y'i nodir, gael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl ddarparwyr trydyddol?

Yn rhannol

Os mai na allai neu yn rhannol oedd eich ateb, rhowch fanylion sut y gallai gael ei gymhwyso'n gyson.

Er bod y dull yn gadarn ac yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae ansicrwydd ynghylch y graddau y bydd modd ei gymhwyso'n gyson i ddarparwyr chweched dosbarth. Rydym yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r dull arfaethedig, gan gynnwys y ffaith nad yw'r darparwyr hyn yn dod o dan amodau cofrestru nac amodau cyllido Medr, ac felly nad ydynt yn rhan ffurfiol o'r fframwaith rheoleiddio. Fodd bynnag, byddai eglurder pellach ynghylch y berthynas rhwng y dull rheoleiddio a'r sector chweched dosbarth yn ddefnyddiol, yn enwedig o ran sicrhau dull cyson, teg a chynhwysol ar draws y sector addysg ôl-orfodol.

**Cwestiwn:** Mae ein Pwerau Ymyrryd arfaethedig yn berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru gan eu bod yn nodi'r ystod o bwerau ymyrryd a sut y gallai'r rhain gael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio ag Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r ymyriadau hynny a nodir dan Y Ddeddf ac ymyriadau amhenodedig posibl eraill a danategir gan swyddogaethau statudol Medr. Mae'r ddogfen hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru nad ydynt yn cael eu rheoleiddio na'u cyllido gan Medr, gan ei bod yn amlinellu rhai pwerau ymyrryd cyfyngedig mewn perthynas ag ansawdd.

I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr ymyriadau'n cyd-fynd â bwriadau'r Ddeddf?

Cytuno'n Gryf

Rydym yn nodi bod y pwerau ymyrryd arfaethedig a amlinellir yn Atodiad A o'r ymgynghoriad yn berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu rheoleiddio nac yn cael cyllid gan Medr. Rydym yn croesawu'r eglurder ynghylch y dull graddol a chymesur o ymyrryd, yn enwedig y pwyslais ar ddeialog gynnar a chefnogaeth i ddarparwyr cyn ystyried camau ffurfiol.

O safbwynt hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg, rydym yn croesawu'r ffaith bod y pwerau hyn yn gallu cael eu defnyddio i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ag amodau cofrestru neu gyllido sy'n cynnwys gofynion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r gallu i weithredu mewn ymateb i fethiannau o ran ansawdd hefyd yn berthnasol, gan fod ansawdd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn elfen allweddol o brofiad dysgwyr.

Rydym yn nodi hefyd fod y ddogfen yn cyfeirio at y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau ymyrryd cyfyngedig mewn perthynas ag ansawdd, hyd yn oed lle nad yw darparwr yn cael ei reoleiddio nac yn cael cyllid uniongyrchol gan Medr. Byddem yn croesawu eglurhad pellach ar sut y gallai hyn weithredu'n ymarferol, yn enwedig o ran sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg o safon yn cael ei hyrwyddo'n gyson ar draws y sector.

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r dull ymyrryd arfaethedig – sef cymesuredd, tryloywder, a ffocws ar welliant – ac yn annog Medr i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ganolog wrth weithredu'r pwerau hyn.

## Fframwaith Rheoleiddio

**Cwestiwn:** Mae ein Dull Rheoleiddio wedi dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn bwriadu monitro cydymffurfiaeth â'r Amodau Cofrestru / Cyllid, a eglurir yn ein trefniadau monitro arfaethedig. Darperir rhagor o fanylion am fonitro dan bob amod. Bydd rhagor o wybodaeth am fonitro'n cael ei darparu fel rhan o'r ymgynghoriad yn hwyrach yn 2025.

Yn y Datganiad, rydym wedi darparu dau fodel posibl ar gyfer ein dull o ymgysylltu â'r darparwyr hynny yr ydym yn eu monitro – oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â hyn?

Rydym yn croesawu bwriad Medr i ddatblygu system oruchwylio gymesur, seiliedig-ar-risg sy'n ategu cydymffurfedd rheoleiddiol a gwelliant parhaus ar draws y sector addysg drydyddol. Yn benodol, rydym yn cytuno â'r egwyddor bod darparwyr yn gyfrifol am ddeall a chyflawni eu hymrwymiadau rheoleiddiol.

O safbwynt ehangu a gwella addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol fod darparwyr yn mabwysiadau dull rhagweithiol ac yn perchnogi eu cyfrifoldebau. Rydym felly yn croesawu egwyddorion cyffredinol dull rheoleiddio a monitro Medr.

O safbwynt y Gymraeg yn benodol credwn y bydd dull Medr o fonitro cydymffurfiaeth ac ymgysylltu â darparwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar y fframwaith gynllunio ehangach fydd yn bodoli. Er nad yw'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu'n llawn eto, mae Medr wedi ymrwymo i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ac i gyhoeddi amod rheoleiddio y Gymraeg ym mis Ebrill 2026.

Gan dderbyn y bydd cyfle yn y dyfodol i ddarparu sylwadau mwy manwl am y materion uchod, mae'n debygol y bydd y cynllun cenedlaethol yn gosod gweledigaeth genedlaethol ar gyfer datblygiad addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, gan osod disgwyliadau clir a phenodol ar ddarparwyr. Bydd yr amod rheoleiddio yn ategu'r cynllun drwy sicrhau bod darparwyr yn cynllunio a gweithredu'n strategol i gefnogi ei amcanion. Credwn y dylai'r amod ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lunio strategaeth y Gymraeg sy'n ymateb i'r cynllun cenedlaethol.

Credwn y byddai fframwaith cynllunio o'r fath yn galluogi datblygu trefniadau ymgysylltu a monitro eglur a chadarn. O blith y modelau a gynigir yn Atodiad B ynghylch ymgysylltu â darparwyr, credwn fod model 2 yn cyd-fynd orau â'r math o fframwaith cynllunio a amlinellir uchod (gan dderbyn wrth gwrs nad oes angen dewis un model ar draul y llall). Hynny yw, byddai'r cynllun cenedlaethol yn darparu cyfeiriad strategol clir i'r sector drydyddol, a byddai hyn yn sail i gynlluniau ar lefel darparwyr. Byddai'r cynlluniau hyn yn sail i drafodaethau strategol cyson, yn meithrin deialog a chydweithio, ac yn cynnig cyfleoedd mwy strwythuredig i fonitro, adrodd, ac addasu'r cynlluniau ar lefel cenedlaethol ac ar lefel darparwyr. Credwn y byddai'r fframwaith hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i rannu arferion da ac yn annog cydweithio ymysg gwahanol bartneriaid allweddol.

Yn y cyd-destun uchod, credwn bod y model Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn enghraifft berthnasol. Mae hyn yn arbennig o wir yn sgil cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg, lle bydd dyletswydd ar weinidogion Cymru i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg fydd yn eistedd uwch ben cynlluniau strategol ar lefel awdurdod lleol.

## Y Gymraeg

**Cwestiwn:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn ag effaith yr holl elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar y Gymraeg.

A ellid newid y cynigion i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg:

Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gymraeg wedi'i gynnwys fel amod cofrestru parhaus ac fel amod cyllido. Fe fydd gosod yr amod rheoleiddio hwn yn rhan allweddol o sicrhau bod Medr yn cyflawni ei ddyletswyddau strategol mewn perthynas a'r Gymraeg.

Er ein bod yn ymwybodol y bydd ymgynghoriad pellach ar amod rheoleiddio y Gymraeg yn y dyfodol, mae ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch y fframwaith reoleiddio a trefniadau monitro yn amlygu rhai safbwyntiau cychwynnol ar natur yr amod hwn, ei berthynas â'r cynllun cenedlaethol arfaethedig, a goblygiadau hyn o ran trefniadau monitro ac ymgysylltu â darparwyr.

Y pwynt pwysig yw bod angen i amod rheoleiddio y Gymraeg wneud cyswllt clir rhwng y cynllun cenedlaethol arfaethedig a'r gwaith o weithredu'r cynllun hwn ar lefel darparwr. Fel yr ydym eisoes wedi nodi, credwn fod gosod gofyniad ar ddarparwyr i lunio strategaeth ar gyfer ehangu darpariaeth Cymraeg sy'n ymateb i'r cynllun cenedlaethol yn hanfodol yn y cyd-destun hwn. Gwyddom fod Medr yn bwriadu ymgynghori ar yr amod rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg cyn cyhoeddi'r Cynllun Cenedlaethol. Credwn felly

bod angen geirio yr amod yn ofalus, gan sicrhau bod cyswllt clir rhwng yr amod a’r cynllun cenedlaethol. Tybiwn y byddai modd cyflwyno canllawiau atodol ar yr amod yn dilyn cyhoeddi’r cynllun cenedlaethol, a hynny er mwyn ymhelaethu ar  y gofynion hyn.